# 2. DYDD LLUN … DYDD Y GLANHAU Y FFIGYSBREN A'R DEML

**Darllen:** Marc 11: 12-26

Ar fore Llun aeth Iesu a'i gyfeillion yn ôl dros Fynydd yr Olewydd i Jerwsalem. Ar y ffordd, cerddasant heibio i ffigysbren yn llawn o ddail, golygfa anghyffredin yr amser hynny o'r flwyddyn. '*Dyma ffeithiau ynglwn â'r ffigysbren. Tua diwedd mis Mawrth, mae'r dail yn dechrau ymddangos neu o fewn wythnos mae'r deiliant yn gyflawn. Digwyddiad sy'n cyd-fynd â hyn yw ymddangosiad cnwd o ddyrnau bychain, sydd weithiau'n ymddangos o flaen y dail, nid y gwir ffigys ond math o ragredegydd cynnar. Tyfant i faint almon, a chael eu bwyta gan werinwyr ac eraill â chwant bwyd arnynt. Syrthiant i'r llawr wrth iddynt aeddfedu'*.[1]

Defnyddir y symbol o 'felltithio'r ffigysbren' nifer o weithiau yn yr Hen Destament fel arwydd o farn Duw ar ei bobl, megis yn Jeremia 8: 13: *"Pan gasglwn hwy, medd yr Arglwydd, nid oedd grawnwin ar y gwinwydd na ffigys ar y ffigysbren."* Hefyd, yn Hosea 2: 12: "*Difethaf ei gwinwydd a'r ffigyswydd, y dywedodd amdanynt, Dyma fy nhal, a roes fy nghariadon i mi."* Defnyddia'r Salmydd yr un symbol (Salm 105: 33): "*Trawodd y gwinwydd a'r ffigyswydd…"*

Ymffrost oedd gan y ffigysbren hwn, '*Edrychwch ar fy nail. Dewch a bwyta fy ffrwyth'.* Ond nid oedd ffrwyth arni, hyd yn oed *Taqsh*, y dyrnau bychain. Roedd cyfnod y cynhaeaf ffigys i ddod ymhen misoedd. Nid oedd gan y goeden hon ffigys o gwbl. Roedd yn afiach ac ni fyddai neb yn cael bwyta ei ffrwyth byth mwy. Daeth Iesu at y ffigysbren gan ofyn am ei ffrwyth: '*Mae dy ddail yn dweud bod gennyt ffigys, felly dyro i mi o'th ffrwyth'*. Ond nid oedd ffrwyth ar gael, roedd y goeden afiach yn ceisio twyllo pobl.

Yn Nameg Jotham (Llyfr y Barnwyr 9: 11), gwrthoda'r ffigysbren deyrnasu dros y coed eraill gan ymffrostio yn '*fy mraster, yr anrhydeddir Duw a dynion trwyddo'*. Enghraifft arall o Iesu'n gweithredu dameg sydd yma, tebyg i'r hyn a wnaeth wrth iddo fynd i Jerwsalem ar gefn asyn. Eisoes, roedd Iesu wedi rhybuddio'i ddisgyblion bod dynion yn debyg i goed: "*Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt… Ni all coeden dda ddwyn ffrwyth drwg, na choeden wael ffrwyth da… felly wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.*" (Mathew 7: 17, 20). Ei bwrpas yn awr oedd darlunio dyfodiad Goleuni i'r byd i ddatguddio

gwir gyflwr pethau. “*Dyma awr barnu’r byd hwn”* (Ioan 12: 31). Ond nid barnwr mewn llys barn yw’r unig un sy’n cyhoeddi dedfryd, onid dyna swyddogaeth meddyg hefyd ar ôl astudio cyflwr claf, yn arbennig yn ein hoes ni, a phob math o offer ar gael i ddatguddio ei wir gyflwr? Onid prognosis meddyg sydd yma? Adnabod achos clefyd yw swyddogaeth meddyg, nid ei achosi. Ni wnaeth Iesu niwed i’r ffigysbren, y cyfan a wnaeth oedd datguddio ei gyflwr. “*Yr wyt yn farw*,” medd Iesu wrth y ffigysbren am ei fod eisoes yn farw. “*Ac yr oedd ei ddisgyblion yn gwrando”* (Marc 11: 14). Mae’n bwysig iddynt wrando yn awr a gweld a chofio wrth iddynt fynd drachefn gydag ef i’r Deml, a rhannu yn y digwyddiadau a oedd i ddilyn yn ystod yr wythnos hon.

Preswylfa Duw ar y ddaear oedd y Deml i’r Iddewon: ‘‘*Gelwir fy nhw yn dŷ gweddi i’r holl bobloedd’, medd yr Arglwydd Dduw’* (Eseia 56: 7). Er mwyn cyflawni’r geiriau hyn, agorwyd pyrth y Deml yn ddyddiol gan ganiatáu i bobl yr Arglwydd ddod i mewn i offrymu eu haddoliad a’u haberthau yno. Roedd gan y Deml, fel y ffigysbren, ddail hardd – ei gwasanaethau yn brydferth eu golwg a’u sun, aberthau niferus a phererinion o bob rhan o’r wlad a’r diaspora,[2] i Deml yr Iddewon y deuai llu o genedl-ddynion hefyd, rhai yn dwristiaid yn mwynhau harddwch yr adeiladau ond eraill yn chwilio am Dduw moesol. Ymhlith yr ymwelwyr â’r Deml y bore Llun hwnnw yr oedd yna un arbennig iawn yn cyflawni addewid Malachi (gweler tud.1). Daeth Iesu i’r Deml i gyflawni’r ddameg a weithredodd gyda’r ffigysbren. Roedd y dail yn amlwg – ond ble oedd y ffrwyth? Cawn y Meddyg Da unwaith yn rhagor yn gwneud diagnosis ac yn cyhoeddi barn wrth iddo gyplysu dwy adnod o’r proffwydi nad oedd neb wedi eu cyplysu erioed o’r blaen, gydag effaith mawr iawn. Trown at eiriau poblogaidd Eseia 56: 7: ‘*gelwir fy nhw yn dŷ gweddi i’r holl bobloedd’*, fe ychwanegodd Iesu gymal o Jeremia 7: 11:*“Ai lloches lladron yn eich golwg yw’r tŷ hwn y gelwir fy enw arno? Ond yr wyf finnau hefyd wedi gweld hyn,’ medd yr Arglwydd.”*

Yr hyn a welodd Iesu yn nheml Jerwsalem oedd ecsbloetio’r ffyddloniaid tlawd er mwyn llenwi pocedi’r archoffeiriad a’u teuluoedd. Dwy ffordd arbennig oedd ganddynt i wneud hyn. Yn gyntaf, daeth pererinion yno i offrymu aberthau i’r Duw sanctaidd a rhaid i’r aberthau hynny fod yn sanctaidd a hollol ddi-nam hefyd. Penodwyd archwilwyr gan yr Archoffeiriad i sicrhau bod pob aberth yn dderbyniol. Eu gwaith, mewn gwirionedd, oedd gwrthod pob anifail a gafodd eu hebrwng i mewn drwy’r pyrth er mwyn sicrhau bod y pererinion yn prynu eu

hanifeiliaid oddi ar stondinau y tu mewn i dir y Deml ei hun; stondinau o eiddo'r Archoffeiriaid â'u prisiau llawer uwch na'r farchnad y tu allan. Yn ail, roedd yn rhaid i bob pererin dalu treth i'r Deml ond ni chaniateid iddynt offrymu arian budr Cesar yn y lle sanctaidd hwn. Arian sanctaidd y Deml yn unig oedd yn dderbyniol ac yn eu haelioni, agorodd Annas gyfnewidfa arian yn y Deml ar gyfer y pererinion, gan sicrhau elw mawr iddo ef a'i deulu. '*Pebyll Annas'* oedd enw'r cyhoedd ar y farchnad hon.

Yr oedd cyfres o lysoedd o fewn y Deml. Y mwyaf allanol ohonynt oedd Llys y Cenedl-ddynion, yr unig ran o'r Deml a oedd ar agor i genedl-ddynion, ac yma y lleolwyd '*Pebyll Annas'*. Llys y Gwragedd oedd y nesaf, ac wrth ei phyrth hysbysiadau yn rhybuddio cenedl-ddynion rhag mynd ymhellach ar boen marwolaeth. Felly, yr unig gip oedd ar gael i bererinion o du allan i'r deuddeg llwyth oedd y farchnad hon, '*yr ogof lladron'* – a'r cyfan yn dwyn sarhad ar enw Duw. Daeth Crist i'r Deml i'w herio yn yr un modd ag y gwnaeth i'r ffigysbren: *Yr wyt yn chwifio'th ddail, ond ble mae dy ffrwyth? Ble mae'r arwyddion o bresenoldeb Duw ar y ddaear a ble mae dy wir gydnabyddiaeth ohono?* Yr un oedd ei brognosis a'i ddiagnosis ag i'r ffigysbren: *"Tŷ Gweddi" yn "Ogof Lladron". Yr wyt wedi marw. Na fwytäed neb ffrwyth ohonot ti byth mwy."*

Triniaeth lawfeddygol oedd gan y Meddyg Da, sef torri'r drygioni allan. '*Dechreuodd fwrw allan y rhai oedd yn gwerthu, a'r rhai oedd yn prynu yn y deml; taflodd i lawr fyrddau'r cyfnewidwyr arian a chadeiriau'r rhai oedd yn gwerthu colomennod, ac ni adawai i neb gludo dim drwy'r Deml*' (Marc 11: 15-16). Hawdd dychmygu'r olygfa, yr holl symud a'r sun, dynion mewn ofn a thymer, ac anifeiliaid wedi dychryn. Digwyddiad o bwys oedd hwn fel gweithred ac fel dameg. Fel hyn y byddai Duw yn torri ymaith pob aflendid yng nghrefydd a bywyd ei bobl; dyna neges y ddameg. Yn y cyfamser, y weithred oedd yn bwysig. Ymosododd Iesu o Nasareth ar weithwyr y Deml, dynion oedd wedi eu penodi gan neb llai na'r Archoffeiriaid Caiffas ac Annas. Wrth iddo wneud hyn, heriodd hawl yr Archoffeiriaid, nid yn unig i wneud ffortiwn o'u gweinidogaeth ond hefyd i arwain a rheoli crefydd pobl Dduw. A oes yma neges i'r eglwysi heddiw? Daeth Crist yn Oleuni'r Byd sy'n parhau i lewyrchu'n awr yn ein plith fel Cristnogion ac yn y byd. Beth sy'n cael ei ddatguddio heddiw gan y Goleuni?

Yn ôl Arthur Marcus Ward[3], dywedodd Gandhi wrtho mai ei hoff emyn oedd '*Wrth edrych, Iesu, ar dy groes'.* Pam felly, na throdd Gandhi at Gristnogaeth? Ysgrifennodd am ei brofiad o geisio mynd i addoli mewn dwy eglwys yn Ne Affrica; dyma'i ddisgrifiad o'r cyntaf: '*Nid oedd y gynulleidfa yn fy nharo fel un arbennig o grefyddol. I bob ymddangosiad, nid cynulleidfa o eneidiau duwiol mohonynt ond pobl eithaf bydol, yn mynychu'r cwrdd er mwyn adloniant a chydymffurfio â defod.*'Aeth Gandhi i eglwys arall, ond ni chafodd fynediad iddi gan nad oedd lliw ei groen yn dderbyniol. Gwelodd ddigon o ddail yno ond dim arwydd o ffrwyth y Ffydd.

Onid fel hyn y daw Duw yng Nghrist i Gymru a'r byd yn ystod yr 'Wythnos Fawr' a phob diwrnod arall – gan ddechrau yn yr eglwysi? Beth, tybed, yw neges addoliad ein heglwysi a'u bywyd cynulleidfaol ac i fywydau unigol eu haelodau? Ai chwifio yn yr awel glyd y mae eu dail? Ai arwydd ac addewid o ffrwyth yw eu gweithgareddau? "*Yn awr y mae barn y byd hwn", medd Crist* (Ioan 12: 31). Dyma'r farn, dyma ddiagnosis y Meddyg Mawr. A oes yma fwyd i bobl sy'n llewygu a goleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch? A gyhoeddir ffydd a gobaith a '*Gras a chariad megis dilyw'*? Tw'r Arglwydd yw man cychwyn barn; Tw'r Arglwydd yw man cychwyn edifeirwch ac ufudd-dod a chymod.

Dywedodd y nofelydd, Katherine Mansfield unwaith, nad oedd ganddi'r un stori y byddai am ei dangos i Dduw. Beth amdanom ni fel unigolion ac eglwysi? Oni chyhoedda'r Llythyr at y Saith Eglwys ar ddechrau Llyfr y Datguddiad nad oes gan unrhyw eglwys, nac enwad, na diwinyddiaeth arbennig hawl ddwyfol am barhad ac y mae hanes yn cadarnhau neges geiriau Ioan. '*Pa brofiad Cristnogol o Dduw sydd yna heddiw yn Asia Leiaf, yn y rhan fwyaf o Fesopatamia [Irac], ym Mhersia [Iran], yn yr Aifft, yng Ngogledd Affrica? Ble mae'r corlannau gynhyrchodd St.Gregori, St.Athanasiws, St.Awstin...? Am mai ffydd hanesyddol yw Cristnogaeth, rhaid i ni dalu sylw i'r ffaith bod y profiad Cristnogol wedi ei ddileu bron iawn yn yr ardaloedd lle tyfodd ei ffrwythau cyfoethocaf, yn yr hanner o'r hen fyd Rhufeinig i dde a dwyrain y Môr Canol a'r ardaloedd eang i'r dwyrain o'r môr.*'[4] Ond erys gras Duw i'r Eglwys er mwyn y byd.

Yng ngolwg yr awdurdodau, fe aeth y Saer o Nasareth yn rhy bell yn ei wrthryfel yn eu herbyn. Daethant ynghyd ar unwaith mewn dicter ac ofn. Yr oedd ganddynt ddewis – naill ai newid eu hunain neu roi taw arno ef (yr un dewis ag sydd gennym ninnau oll). Peth hawdd iddynt

oedd penderfynu. Rhaid i'r hwn sydd am daflu'r Mynydd Sanctaidd i'r môr dalu pris am eu herio a'u sarhau. Mae'n amlwg iddynt anghofio eu hysgrythurau, gan gwyno yn erbyn y Crist fel y gwnaeth eu tadau yn erbyn Moses yn yr anialwch, a chan anghofio ateb Moses hefyd: "*Nid yn ein herbyn ni y mae eich grwgnach ond yn erbyn yr Arglwydd"* (Exodus 16: 7). Bwch dihangol oedd Moses i'r bobl, fel llawer i arweinydd eglwys wedi hynny – a bwch dihangol yw'r Oen sydd i'w ladd y tu allan i fur y dref. Ond, y tro hwn, nid manna yw ateb Duw i'w pechod ond "*y bara bywiol hwn a ddisgynnodd o'r nef*" (Ioan 6: 51).

Wedi i ddeugain mlynedd fynd heibio, fe chwalwyd adeiladau'r Deml gan filwyr Rhufain. Ond, dangoswyd heddiw bod gweithgareddau'r Deml wedi colli eu hystyr ymhell cyn hynny. Symudodd lleoliad y gwir Deml o Fynydd Moria i Fryn Calfaria. Mewn dyn ar groes, â'i gorff yn dioddef poenau erchyll, y gwelwyd y Deml Newydd a gogoniant Duw ar y Ddaear. Pren Calfaria fyddai'n dwyn y cynhaeaf o ffrwythau perffaith. Ar Golgotha fe gynigodd iddynt hwy a ninnau ras, gallu ac esiampl, gan alw pawb i gymdeithas maddeuant, cariad a charu. Daeth Crist i'r byd i fod yn Feddyg Da i blant y llawr. Digwyddodd dau beth mawr wrth iddo hongian ar ei groes, sef datgan barn ar y byd, fel meddyg yn datguddio cyflwr dyn (*diagnosis*) a chynnig iachâd a bywyd newydd iddo (*prognosis*). Duw oedd i'w weld wrth ei waith iachusol yma a Duw sydd i'w weld o hyd yn ei waith iachusol ym mywydau Cristnogion ac eglwysi sy'n marw'n ddyddiol eu hunain. Gwelir y groes yn cael ei chodi ym mywydau Cristnogion a chynulleidfaoedd Cristnogol sy'n dewis dilyn ffordd Iesu Grist.

"*Dyma awr barnu'r byd hwn*", medd Iesu (Ioan 12: 31); yn awr datguddir gwir gyflwr pawb a phopeth. Yn ogystal: "*Dyma yn awr yr amser cymeradwy; dyma, yn awr, ddydd iachawdwriaeth"* (2 Corinthiaid 6: 2). Yma y cawn gip ar y cariad tragwyddol a gwybod bod maddeuant wedi ei ollwng yn rhydd yn y byd, a chymod a chyfle i gyfamodi â'n gilydd, a bywyd newydd - rhoddion Duw i'w blant.
Cân hyfryd sydd gan Fenantiws Ffortwnatws[5] i ffigysbren Calfarî:

*Ti yw'r tecaf o'r holl brennau*
*Yn y goedwig, ffyddlon Groes;*
*Mewn un llwyn prydferthach blodau,*
*Purach ffrwyth na dail nid oes;*
*Mwyn yw'r Pren, a mwyn yr hoelion.*
*Ddeil yr Aberth dan ei loes.*

**Gweddi:**
*O Waredwr y byd, trwy dy Groes a’th werthfawr waed,*
*fe’n gwaredaist ni,*
*cadw ni a chynorthwya ni,*
*erfyniwn arnat yn ostyngedig,*
*O Arglwydd. Amen.*